**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 8 Ebrill 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| S J Gallagher | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | B J Rowlands | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Associate Lawyer |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas

---

## 54 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiant canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd - Personol - Cofnod Rhif 58 - Apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo Cynorthwy-ydd Teithwyr ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol - CL. Gadawodd y Cynghorydd Lloyd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

## 55 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2022 yn gofnod cywir.

## 56 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 57 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - PRP.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â PRP.

Esboniodd PRP yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau’r aelodau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cais PRP am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chamau lliniaru PRP mewn perthynas â’r drosedd a theimlai ei bod yn briodol caniatáu’r drwydded am flwyddyn.

## 58 Apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo Cynorthwy-ydd Teithiwr ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol - CD.

Manylodd yr Arweinydd Tîm Trafnidiaeth Teithwyr ar y cefndir mewn perthynas â CL, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd CL, gyda chymorth Mr J, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r troseddau ac atebodd gwestiynau’r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod apêl CL yn erbyn y penderfyniad i beidio â'i gymeradwyo fel gyrrwr Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd yr aelodau'n fodlon fod CL yn berson addas, priodol a diogel i'w gymeradwyo fel gyrrwr cludiant ysgol o dan adrannau 3.29, 4.16, 4.17 a 4.22, 4.28 a 4.31 yr arweiniad ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.00 pm

**Cadeirydd**